# Cylchlythyr y Rhaglen Patholeg Genedlaethol – Hydref 2024

## Croeso i'n Cylchlythyr!

Mae'r Cylchlythyr yn chwarterol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein gwaith, ein cyflawniadau a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Yn y rhifyn hwn:

- Diweddariadau am y rhaglen
- Stori Newyddion Dda -
- Digwyddiadau'r dyfodol...

---

Hoffai'r Rhaglen Patholeg Genedlaethol rannu newyddion, erthyglau a digwyddiadau sy'n ymwneud â phatholeg â chynulleidfa eang. Os ydych yn adnabod unrhyw gydweithwyr eraill a fyddai â diddordeb mewn tanysgrifio i'n cylchlythyr chwarterol, gofynnwch iddynt gysylltu â ni yn:

NHSWHC.National.Pathology.Programmes@wales.nhs.uk

Os hoffech gael eich tynnu oddi ar y rhestr ddosbarthu hon, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod.

**Gwefan:** Ail-lansiwyd y wefan Patholeg ar ei newydd wedd yn llawn ym mis Mai, gyda chynnwys newydd a dull hawdd ei ddefnyddio gyda thudalennau mwy hygyrch. Dewch i gael golwg os nad ydych wedi gwneud yn barod! Patholeg - GIG Cymru Gweithrediaeth

---

## Cefndir y Rhaglen

Mae'r Rhaglen Batholeg Genedlaethol yn gorff strategol yng Nghymru sy'n eistedd o fewn Gweithrediaeth GIG Cymru, sydd yn ei dro yn cael ei gynnal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ein cylch gwaith yw gweithio gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau ar draws Cymru i gefnogi datblygiad gwasanaethau patholeg effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel. Nodwyd meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella sy'n ffocysu ar y Rhaglen Genedlaethol yn wreiddiol yn y *Datganiad o Fwriad Patholeg (2019)* ac mae'r gwaith presennol yn cyd-fynd â *Strategaeth Adfer a Thrawsnewid Diagnosteg Cymru (2023 – 2025)*.

---

## Diweddariadau ar feysydd allweddol ein gwaith:

### Sicrhau Ansawdd
Yn ddiweddar, mae'r ffrwd waith Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfiaeth Rheoleiddiol wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr gwybodeg o Weithrediaeth GIG Cymru, i goladu a phrosesu profion Gwyddorau Gwaed yn genedlaethol.

### Gwybodaeth Busnes
Mae'r Rhaglen wedi gweithio gyda thimau Gwybodaeth Busnes (BI) yng Ngweithrediaeth GIG Cymru i ddatblygu dangosfwrdd llwyth gwaith manwl ar gyfer Patholeg Gellog. Mae'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd a bydd yn cael ei rannu â rheolwyr gweithredol yn fuan. Mae'r Rhaglen yn edrych ar gyfleoedd i ymestyn hyn i ddisgyblaethau eraill.
Mae darn newydd o waith hefyd yn cael ei wneud gyda chydweithwyr Cyllid i ddeall galluedd patholeg trwy ddefnyddio data sefydliadau. Bydd y data hwn yn ychwanegol at wybodaeth a gasglwyd eisoes gan ESR.

### Technolegau Digidol a Newydd
Mae'r achos busnes ar gyfer Patholeg Cellog Ddigidol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan fyrddau iechyd unigol, ac mae eisoes wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae prosiect patholeg gyfrifiadol Cymru gyfan wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y Wobr Moderneiddio Diagnosteg yng Ngwobrau Cyfnodolyn y Gwasanaeth Iechyd (HSJ) eleni, gyda'r cais 'Chwyldro'r Patholeg Cellog yng Nghymru gan ddefnyddio Delweddu Digidol wedi'i gyfuno â Deallusrwydd Artiffisial'.

Mae cyfarfodydd pellach wedi'u trefnu gyda chyflenwyr datrysiad sganio digidol haematoleg a Deallusrwydd Artiffisial. Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatrysiad microbioleg ddigidol.

Mae trafodaethau hefyd wedi bod yn mynd rhagddynt gyda chyflenwyr a rhanddeiliaid yng Nghymru i gefnogi cyflwyno Microtomi awtomataidd i labordai yng Nghymru. Gobeithiwn allu darparu rhagor o wybodaeth am y datblygiadau cyffrous hyn yn ein rhifyn nesaf o'r cylchlythyr.

### Prosiect Cofrestru Offer
Nod y prosiect yw gweithredu proses ar gyfer coladu a blaenoriaethu gofynion offer patholeg. Bydd hyn o gymorth i'r Rhaglen Ddiagnosteg Genedlaethol os bydd arian cyfalaf ar gael ar fyr rybudd gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, dim ond y Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol sydd â phroses ar waith, ac argymhellwyd bod gweddill yr arbenigeddau diagnostig yn mabwysiadu'r un broses.

Cychwynnwyd y prosiect trwy gasglu data gwaelodlin ar gyfer y ddisgyblaeth Patholeg Gellog yn y lle cyntaf. Mae'r holl gyflwyniadau o labordai ledled Cymru bellach wedi'u coladu, ond mae dau gyflwyniad Bwrdd Iechyd heb eu penderfynu ar hyn o bryd ond ar y gweill. Mae'r cam nesaf, sef sefydlu grŵp gwerthuso sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr enwebedig sydd â gwybodaeth briodol am offer patholeg, yn cael ei archwilio ar hyn o bryd.

### Cynaliadwyedd Amgylcheddol
Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo ar gyfer mapio arferion gorau yn genedlaethol a chyfleoedd i hybu cynaliadwyedd amgylcheddol ar draws gwasanaethau patholeg yng Nghymru. Gofynnwyd i bob rheolwr gweithredol ddarparu gwybodaeth am unrhyw fentrau/prosiectau cynaliadwyedd sy'n cael eu cynnal yn eu sefydliad ar hyn o bryd. Mae cyswllt gwaith wedi'i sefydlu gyda chymrodyr cynaliadwyedd AaGIC ac arweinwyr clinigol

Gwyddor Gofal Iechyd i rannu cynlluniau gwaith a phecynnau cymorth hunanasesu. Mae'r Grŵp Cydweithio Cynaliadwyedd yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd ac mae bellach yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Gwasanaeth Geneteg Meddygol Cymru Gyfan (AWMGS).

Mae'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r offeryn hunanasesu cynaliadwyedd patholeg a ddatblygwyd gan y Rhaglen, a anfonwyd at y rheolwyr gweithredol, wedi'i ymestyn oherwydd pwysau gwaith y gwasanaeth. Unwaith y bydd yr holl gyflwyniadau wedi'u dychwelyd bydd yn darparu llinell sylfaen allweddol sy'n nodi lefel bresennol yr aeddfedrwydd ar gyfer cynaliadwyedd ar draws yr holl wasanaethau patholeg yng Nghymru.

Cynhaliwyd "*Uwchgynhadledd Fyd-eang My Green Lab (MGL) 2024*" ar 18 a 19 Medi 2024 gyda chynrychiolwyr rhithwir o bob rhan o'r byd yn bresennol. Mae'r sefydliad dielw hwn sydd wedi'i leoli yn San Diego yn gweithio gyda gwyddonwyr a sefydliadau ymchwil i wella iechyd yr amgylchedd a'r defnydd o adnoddau. Roedd uwchgynhadledd 2024 yn cynnwys prif sesiynau, trafodaethau panel, sesiynau bord gron rhyngweithiol, arloesiadau technolegol a chynhyrchion ar gyfer labordai cynaliadwy gan ddod i glo gyda chyflwyno gwobrau. Cyhoeddwyd diweddariadau rhaglen i safonau ac offer MGL hefyd ac un o'r negeseuon allweddol a bwysleisiwyd yw pwysigrwydd gwelliant parhaus ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r rhaglenni MGL yn cynnwys *"my green lab certification*" – safon fyd-eang ar gyfer arferion gorau cynaliadwyedd labordy; "*my green lab ambassador*" - rhaglen ar-lein rhad ac am ddim sy'n rhoi cyflwyniad i gynaliadwyedd labordy a sut i awgrymu newid yn eich labordy; a'r "*freezer challenge*" - cystadleuaeth ryngwladol sy'n anelu at leihau effaith amgylcheddol storio oer.

Mae rhagor o wybodaeth am MGL, ei raglenni, yr uwchgynhadledd fyd-eang eleni ac uwchgynadleddau blynyddol blaenorol ar gael drwy'r ddolen hon: My Green Lab.

## Gweithlu, Hyfforddiant ac Addysg

Cynllun peilot Hwylusydd Addysg Ymarfer Patholeg yn y rhanbarth De-ddwyrain – mae'r papur argymhellion wedi'i ddiwygio a'i adolygu gan aelodau'r Tîm, yr Arweinydd Clinigol ar gyfer y Gweithlu a chan grŵp y gweithlu (PWEG) ar 17/09/24. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad y ddogfen hon. Bydd yn cael ei thrafod yng nghyfarfod y Grŵp Strategol a Gweithredol Diagnostig (DSOG) ar 7 Hydref.

Hyfforddiant Pwynt Gofal (PoCT) - mae'r is-grŵp Hyfforddiant PoCT wedi cynnal adolygiad datblygiad gyrfa ar gyfer staff PoCT yng Nghymru, ar ran y Grŵp Gweithlu ac Addysg Patholeg (PWEG) a'r Grŵp Strategaeth Profi Pwynt Gofal. Mae'r adolygiad hwn wedi cynhyrchu cyfres o argymhellion a gaiff eu datblygu ar y cyd rhwng PWEG ac AaGIC. Bydd yr is-grŵp Hyfforddiant PoCT yn datblygu uned 30 credyd Lefel 4 mewn cydweithrediad ag AaGIC. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu (cyfarfod yng nghanol mis Hydref 2024) i symud cynnwys y modiwl yn ei flaen. Bydd Sefydliad Gwyddoniaeth Fiofeddygol (IBMS) yn datblygu portffolio arbenigol yn benodol ar gyfer PoCT i helpu gyda datblygu llwybr gyrfa ar gyfer gwyddonwyr a gweithwyr proffesiynol anwyddonol.

Peilot hyfforddiant BMS Adrodd Cwmpas Cyfyngedig – mae'r peilot yn cael ei ariannu gan Fenter Canser Moondance ac mae hyfforddiant yn mynd rhagddo'n dda gyda 2 hyfforddai ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd y Rhaglen yn datblygu achos busnes ar gyfer y swyddi parhaol, gan gynnwys swydd-ddisgrifiad safonol mewn cydweithrediad â PCGC, a fydd yn cael ei gymeradwyo i'w fabwysiadu'n genedlaethol.

Bu trafodaethau gydag AaGIC ar ddiffiniad a chwmpas 'academi', ac mae cynlluniau'n cael eu cwblhau fel y gallwn ailddechrau gwaith i ddatblygu'r patholeg 'rhithwir' ar blatfform AaGIC y Tŷ Dysgu.

**Cyfathrebu**
Mae ein Rheolwr Prosiect Cyfathrebu, Lisa McCutcheon a’n Swyddog Cymorth Prosiect, Jo Everett, wedi gadael y Rhaglen ar gyfer rolau newydd yn ICC. Yn anffodus bu'n rhaid atal y gwaith Cyfathrebu hyd nes y gallwn benodi rhywun yn eu lle.


**Cydweithio/Rhanbartholi'r Gwasanaeth Patholeg**
Mae Grŵp Llywio Patholeg Rhanbarthol y De-ddwyrain ar hyn o bryd yn dod â chydweithwyr o’r tri Bwrdd Iechyd ynghyd i gefnogi cynllunio manwl y prosiect wrth symud ymlaen.

Mae Rhaglen Patholeg Ranbarthol y De-orllewin (ARCH) yn parhau i weithio gyda'r ddau Fwrdd Iechyd i ddatblygu cydweithio rhwng gwasanaethau nawr bod memorandwm cyd-ddealltwriaeth wedi'i sefydlu rhwng y ddau sefydliad.

---

## Stori Newyddion Dda

Mae’n bleser gennym gyhoeddi bod prosiect patholeg gyfrifiadurol Cymru gyfan wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y Wobr Moderneiddio Diagnosteg yng Ngwobrau Cyfnodolyn y Gwasanaeth Iechyd (HSJ) eleni, gyda’r cais ‘Chwyldroi Patholeg Cellog yng Nghymru gan ddefnyddio Delweddu Digidol wedi’i gyfuno â Deallusrwydd Artiffisial’.  Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn y gamp hon. Gobeithiwn y byddant yn gwneud yn dda pan gyhoeddir y canlyniadau yn y Seremoni Wobrwyo ar 21 Tachwedd.


HSJ AWARDS 2024

In Partnership with: vodafone business

HOME ENTER JUDGING PARTNERSHIP ALUMNI CONTACT US

**Modernising Diagnostics Award**

Finalists:

- **All Wales Cellular Pathology collaboration** - Revolutionising Cellular Pathology in Wales using Digital Imaging combined with Artificial Intelligence
- **Barking Havering Redbridge University Hospitals Trust** - Robotic Colonoscopy helping a paradigm shift
- **Greater Manchester Cancer Alliance** - Greater Manchester Chest X-Ray AI Pilot Project
- **Leeds Teaching Hospitals Trust** - NPIC Digital Pathology Deployment
- **NHS England and The Hepatitis C Trust** - The NHS Hepatitis C Online Testing Service
- **NHSE Genomic Unit, North Thames Genomic Medicine Service and North-East and Yorkshire Genomic Medicine Service** - Integrating circulating tumour DNA testing into an NHS diagnostic pathway
- **North West London ICS** - North West London AcuPebble Pathway for Straight-to-Test Obstructive Sleep Apnoea Diagnosis: Faster, Cheaper, Equitable, and Sustainable Diagnostic Modernisation
- **North West London Pathology** - Modernising pathology services across a young network
- **University Hospitals of North Midlands Trust** - Modernising Diagnostic Stroke Imaging through Artificial Intelligence

---

## Gwybodaeth

### Gwobrau IBMS

Mae’r ail rownd o Wobrau IBMS blynyddol ar agor ar gyfer ceisiadau. Gwobrau IBMS - y gwobrau mwyaf mawreddog mewn gwyddoniaeth fiofeddygol gydag 11 categori i ddathlu llwyddiannau'r proffesiwn.  Dylai’r gwaith sy’n cael ei arddangos yn y ceisiadau ar gyfer pob

categori fod wedi digwydd rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 17 Ionawr. Pob lwc!

---

## Digwyddiadau Patholeg i Ddod

**Symposiwm RCPath Cymru 2024 – Dydd Gwener 25 Hydref, Caerdydd**

Cynhelir y digwyddiad wyneb yn wyneb yn unig yng Ngwesty'r Hilton, Caerdydd CF10 3HH. Archebwch le gan ddefnyddio'r ddolen hon: Tudalen archebu digwyddiad: Symposiwm RCPath Cymru 2024

**Diwrnod Patholeg Rhyngwladol – Dydd Mercher 6 Tachwedd 2024, Cynhadledd Rithwir**

Archebwch le gan ddefnyddio'r ddolen hon: Tudalen archebu digwyddiad: Diwrnod Patholeg Rhyngwladol 2024 - Cyfarfod Rhithwir (rcpath.org)

**Digwyddiad Addysg Gastroberfeddol Uchaf (Oesophagogastrig) 2024 - Dydd Gwener 8 Tachwedd 2024, Stadiwm Dinas Caerdydd**

Bydd mynediad am ddim i'r digwyddiad sydd wedi'i anelu at gydweithwyr amlddisgyblaethol sy'n ymwneud â diagnosis, trin a gofal cleifion â chanserau Oesoffagogastrig, gan gynnwys gofal sylfaenol, nyrsio, Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn ogystal â thimau GI uchaf gofal eilaidd. CLICIWCH YMA i gael manylion llawn ac i gofrestru

**Digwyddiad Addysg Canser Pen a Gwddf y Rhwydwaith Canser 2024 - Dydd Gwener 22 Tachwedd 2024, Stadiwm Criced Gerddi Sophia, Caerdydd**

Mae'r digwyddiad rhad ac am ddim hwn wedi'i anelu at gydweithwyr o bob rhan o Gymru sy'n ymwneud â diagnosis a thriniaeth cleifion â chanser y pen a'r gwddf neu sydd â diddordeb ynddo. CLICIWCH YMA i gael manylion llawn ac i gofrestru

**Cynhadledd Canser y Fron Rhwydwaith Canser - Dydd Gwener 29 Tachwedd 2024, Caerdydd**

Nodwch y dyddiad os gwelwch yn dda. Bydd manylion cofrestru ac agenda yn cael eu rhannu yn fuan. Lleoliad i'w gadarnhau. I fynegi diddordeb mewn derbyn y ddolen gofrestru cysylltwch â Rhiannon.Parker2@wales.nhs.uk.

**11eg Cyngres Patholeg Ddigidol a Deallusrwydd Artiffisial: Ewrop – Llundain, dydd Mercher 11 – 12 Rhagfyr**

Gan ffocysu ar sut mae arloesi a Deallusrwydd Artiffisial yn parhau i ysgogi datblygiadau mewn patholeg, mae'r 11eg gynhadledd hon yn gwahodd trafodaeth ar nifer o themâu megis strategaethau gweithredu digidol llwyddiannus, patholeg gwenwyneg, a delweddu digidol. I gael rhagor o fanylion ac i archebu lle, cliciwch ar y ddolen: Cyngres Patholeg Ddigidol a Deallusrwydd Artiffisial: Ewrop (global-engage.com)

**Digwyddiad Addysg Gynaecoleg y Rhwydwaith Canser - Dydd Gwener 6 Rhagfyr 2024, Abertawe**

Cadwch y dyddiad, lleoliad i'w gadarnhau. Bydd manylion cofrestru ac agenda yn cael eu rhannu yn fuan. I fynegi diddordeb mewn derbyn y ddolen gofrestru cysylltwch â Rhiannon.Parker2@wales.nhs.uk.

## Tîm y Rhaglen

| | |
|---|---|
| **Alan Deacon** | Arweinydd y Rhaglen Batholeg Genedlaethol |
| **Adam Christian** | Arweinydd Clinigol y Rhaglen Batholeg Genedlaethol |
| **Caity Thomas** | Uwch Reolwr Prosiect, Batholeg Gellog Ddigidol |
| **Kim Williams** | Uwch Reolwr Prosiect, Batholeg Gellog Ddigidol |
| **Jane Long** | Rheolwr Prosiect, Gweithlu, hyfforddiant ac addysg batholeg |
| **Leanne Barker** | Rheolwr Cymorth Rhaglen |

**Hwyl fawr a dymuniadau gorau i Joanne Everett** (Uwch Swyddog Cymorth Prosiect) a adawodd Dîm y Rhaglen ar 17 Medi ar gyfer rôl newydd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Dymunwn y gorau i Jo yn ei swydd newydd ac estynnwn ein diolch am ei gwaith caled ar y Rhaglen.

**Llongyfarchiadau i Leanne Barker** ar ei rôl newydd haeddiannol fel ein Rheolwr Cymorth Rhaglen.

## Cysylltwch â Ni

E-bostiwch NHSWHC.National.Pathology.Programmes@wales.nhs.uk os hoffech:

- gael eich ychwanegu i'r rhestr ddosbarthu ar gyfer ein cylchlythyr
- rhoi adborth neu gyfrannu
- clywed am gyfleoedd i ymgysylltu â gwaith y Rhaglen

## Rhifyn nesaf – Ionawr 2025